Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Kings Monkton

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru


**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2017**

## Cyd-destun

Ysgol ddydd annibynnol ger canol Caerdydd yw Ysgol Kings Monkton. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer bechgyn a merched o dair i ddeunaw oed. Mae 270 o ddisgyblion ar y gofrestr. Ceir 111 o ddisgyblion yn adran gynradd yr ysgol, gan gynnwys 25 o blant yn y dosbarth meithrin. Mae 159 o ddisgyblion yn adran uwchradd yr ysgol, ac mae 21 o'r rheini yn y chweched dosbarth.

Mae mwyafrif y disgyblion yn trosglwyddo o adran gynradd i adran uwchradd yr ysgol. Daw disgyblion o ardal ddaearyddol eang sy'n cynnwys Casnewydd, Llanilltud Fawr, Tonyrefail a Merthyr Tudful, er bod y mwyafrif yn byw yn ardal Caerdydd.

Mae ystod gallu'r disgyblion yn eang. Nid oes prawf mynediad ar gyfer derbyn disgyblion, er bod meini prawf penodol derbyn gan yr ysgol, gan gynnwys p'un a yw'r ysgol yn gallu bodloni anghenion unigol y plentyn. Mae rhyw 11% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol ac maent yn derbyn cymorth gan yr ysgol. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan 31 o ddisgyblion.

Mae'r prifathro wedi bod yn ei swydd ers tair blynedd. Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys yr is-brifathro a dau bennaeth cynorthwyol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae disgyblion yn dangos agwedd aeddfed tuag at eu dysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn llawn cymhelliant. Mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau cyfathrebu da. Maent yn groesawgar i ymwelwyr, ac yn siarad yn hyderus am eu gwaith.

At ei gilydd, mae trefniadau effeithiol iawn gan yr ysgol i gefnogi lles disgyblion. Mae ethos anogol cryf yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu hyder a hunan-barch disgyblion.

Mae ymdeimlad a rennir o waith tîm ac ymrwymiad i werthoedd a nodau'r ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth gadarn a phwrpasol. Er enghraifft, maent wedi sefydlu gweithgareddau cynllunio gwelliant trwyadl a helaeth sy'n darparu dealltwriaeth gywir a chlir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu gwella.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu mewn perthynas ag addysgu. Ceir trefniadau cadarn ar gyfer monitro ac arfarnu'r addysgu a'r dysgu. Mae arweinwyr yn casglu tystiolaeth uniongyrchol, werthfawr o arsylwadau rheolaidd o wersi ac o graffu ar waith disgyblion. Maent yn dadansoddi canlyniadau'r prosesau monitro hyn yn ofalus ac yn gosod targedau ar gyfer gwella.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda wrth drefnu cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol parhaus i'r staff.

**Meysydd i'w datblygu**

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i wella cydlynu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r cydlynwyr llythrennedd a rhifedd a benodwyd yn ddiweddar wedi sefydlu perthnasoedd gweithio cadarn gydag athrawon pwnc, ac maent wedi dechrau mapio'r medrau hyn mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynllun cytûn sy'n amlinellu sut bydd rôl y cydlynwyr yn cael ei datblygu a sut bydd deilliannau ar gyfer dysgwyr yn cael eu gwella.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth briodol ar gyfer datblygu medrau personol a chymdeithasol disgyblion trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), gwasanaethau a phartneriaethau gwerthfawr gydag asiantaethau arbenigol. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylion mewn dogfennau cynllunio ar gyfer ABCh, ac nid ydynt yn darparu digon o wybodaeth am beth a addysgir ym mhob cyfnod allweddol.

**Argymhellion**

A1 Darparu cyfeiriad clir ar gyfer rôl y cydlynwyr llythrennedd a rhifedd

A2 Gwella cynllunio addysg bersonol a chymdeithasol i ddarparu mwy o fanylion am yr hyn a gyflwynir ym mhob cyfnod allweddol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cymryd camau i gydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi gweithredu'n ddi-oed i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, ac erbyn hyn mae'n bodloni'r safonau rheoleiddiol ar gyfer lles ac iechyd a diogelwch disgyblion yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi gwella hyfforddiant i staff ar bob lefel ac wedi adolygu a diwygio'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu disgyblion. Mae'r polisi diwygiedig yn adlewyrchu canllawiau perthnasol diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dda, ac mae'n cynnwys cyngor clir i staff. O ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion.

**Argymhelliad 2: Gwella cydlynu darpariaeth yn adran uwchradd yr ysgol ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad yn Ionawr 2016, mae'r ysgol wedi penodi cydlynydd llythrennedd a chydlynydd rhifedd. Mae'r cydlynwyr wedi meithrin perthnasoedd cadarn gydag athrawon pwnc, ac wedi dechrau archwilio cynlluniau gwaith, mapio medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm a sicrhau bod y rhain yn gyson â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o fapio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu gystal.

Mae'r cydlynwyr wedi llunio dogfennau arweiniad defnyddiol i'r staff a'r disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau i ddatblygu medrau darllen a deall, gwella atalnodi a chyflwyno data ar ffurf graff.

Mae'r cydlynwyr wedi trefnu gweithgareddau buddiol i ysgogi diddordeb a mwynhad disgyblion mewn darllen. O ganlyniad, mae defnydd disgyblion o'r llyfrgell wedi cynyddu, ac mae staff yn cynorthwyo disgyblion yn dda i wneud dewisiadau priodol, p'un a ydynt yn darllen er mwynhad neu fel rhan o'u hastudiaethau academaidd.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol a buddiol i ddisgyblion ddatblygu'u defnydd cymdeithasol o iaith. Mae hyn yn arbennig o fuddiol i'r disgyblion hynny a all fod yn cael anhawster wrth ryngweithio â'u cyfoedion.

**Argymhelliad 3: Cryfhau ansawdd yr addysgu a'r asesu drwy hyrwyddo arfer orau yn ehangach**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae arweinwyr wedi sefydlu cylch cadarn o weithgareddau sicrhau ansawdd i fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu.  Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau rheolaidd o wersi a chraffu ar waith disgyblion.  Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i ffurfio arfarniad priodol o fanwl o gryfderau a gwendidau'r addysgu a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Mae'r ysgol wedi llunio rhaglen o weithgareddau hyfforddi mewnol rheolaidd i alluogi athrawon i rannu arfer dda.  Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i athrawon arsylwi eu cymheiriaid.  Mae cynrychiolwyr o bob cyfadran ar draws yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer dda.  Maent yn cynhyrchu taflenni arweiniad defnyddiol i staff ar feysydd blaenoriaeth i'w gwella, fel gwella rhediad y  dysgu mewn gwersi, datblygu medrau meddwl a hyrwyddo dysgu annibynnol.  Mae athrawon yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gânt i rannu arfer dda yn fawr.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Kings Monkton |
| **Rhif yr ysgol** | 6816014 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 26/01/2017 |
| **Perchennog** | Ysgolion Annibynnol Heathfield |
| **Staff** | 35 o athrawon, 28 o gynorthwywyr addysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 270 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Disgyblion â datganiadau o AAA sy'n gallu cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd, gyda chymorth ychwanegol lle bo angen |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 05/01/2015 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | amherthnasol |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | amherthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Huw Davies | Arolygydd Tîm |